

Canllaw Ffynhonnell Rhif 9

COFNODION DEDDF Y TLODION/ BYRDDAU GWARCHEIDWAID

BETH YW CYFRAITH Y TLODION/BWRDD Y GWARCHEIDWAID?

Cyn Deddf Diwygio Deddf y Tlodion 1834, cyfrifoldeb y plwyf oedd rhoi cymorth i'r tlodion. Penodwyd goruchwylwyr di-dâl i weinyddu cymorth y plwyf, ac mae eu cofnodion i'w cael yng nghofnodion y plwyfi. Byddai bobl yn gofyn am gymorth y plwyf am wahanol resymau gan gynnwys henaint, salwch, diweithdra, profedigaeth neu anffawd.

Cyn 1834, sefydlwyd tlotai mewn rhai plwyfi, gan gynnwys Penarlâg, Treffynnon ac Owrtyn, ac roedd nifer ohonynt yn tanysgrifio am gyfnod i Chester House of Industry. Ar ôl Deddf Diwygio Deddf y Tlodion 1834, sefydlwyd Undebau Deddf y Tlodion yn Nhreffynnon a Llanelwy ym 1837 a chodwyd tlotai yno. Ffurfiodd Penarlâg ei Undeb ei hun ym 1853, ar ôl bod yn rhan o Undeb Great Boughton cyn hynny, a chodwyd tloty ym Mrychdyn. Penodwyd Byrddau Gwarcheidwaid i weinyddu'r tlotai. Mae'r cofnodion yn dangos beth oedd dyletswyddau Byrddau'r Gwarcheidwaid mewn perthynas â Deddf y Tlodion. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion y Bwrdd a'i swyddogion; cyfrifon y tloty, cytundebau prentisiaeth i blant y tlodion; cofnod o greddau'r bobl a oedd yn byw yn y tloty; dyddiaduron meistri y tloty; cofnodion y cymorth a roddwyd i'r tlodion - y rhai a oedd yn byw yn y tloty a'r rhai a oedd yn byw y tu allan iddo; cofrestr o'r tlodion a oedd yn cyrraedd ac yn gadael y tloty; gorchmynion sefydlogi a symud; a chofrestr marwolaethau'r tloty. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos dyletswyddau'r Gwarcheidwaid nad oeddynt yn ymwneud â Deddf y Tlodion fel cofrestr brechiadau; llyfr ardrethi; a chofnodion glanweithdra. Mae hefyd rhai cofnodion o Loerigion yng nghasgliad y Byrddau Gwarcheidwaid, gan gynnwys papurau'n ymwneud â Gwallgofdy Gogledd Cymru, Dinbych (G/B/19/1-G/B/22/1).

Ni chafodd system Deddf y Tlodion ei diddymu'n ffurfiol tan 1948 o dan y Ddeddf Cymorth Gwladol. Wedi hynny, trowyd llawer o'r tlotai'n ysbytai felly mae'n bosibl bod rhywfaint o orgyffwrdd yn swyddogaethau'r tlotai a'r ysbytai fel sefydliadau, ac yn eu cofnodion.

BETH FEDRAF I GAEL HYD IDDO YNG NGHOFNODION DEDDF Y TLODION/BYRDDAU GWARCHEIDWAID?

Gall cofnodion 'Deddf y Tlodion' (cyn 1834) fod yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n ymchwilio i hanes teuluoedd a hanes cymdeithasol ac economaidd. Gallant gynnwys tystysgrifau sefydlogi a all gysylltu unigolion a theuluoedd â gwahanol blwyfi. Nid oedd pobl nad oeddynt wedi sefydlogi mewn plwyf penodol yn cael hawlio cymorth yno. Mae tystysgrifau sefydlogi'n rhoi gwybodaeth am bobl a gafodd eu hanfon yn ôl i'w plwyfi gwreiddiol er mwyn

hawlio cymorth y plwyf. Mae cofnodion eraill yn cynnwys archwiliadau bastardiaeth, pan oedd mamau plant anghyfreithlon yn gorfod enwi'r tad tebygol; cofnodion festri sy'n rhoi manylion enghreifftiau o gymorth y plwyf; a chyfrifon goruchwylwyr sy'n rhoi manylion y symiau o gymorth ariannol a roddwyd i blwyfolion.

Gall cofnodion Bwrdd y Gwarcheidwaid (ar ôl 1834) fod yn ddefnyddiol iawn at ddibenion gwaith ymchwil. Os ydych yn chwilio am wybodaeth am rywun a oedd yn cael cymorth y plwyf, p'un a oeddynt yn y tloty neu'n cael rhyw fath o gymorth yn eu cartrefi eu hunain, mae'n bosibl y cewch hyd i wybodaeth amdanynt yn y cofnodion hyn. Mae Cofrestri Derbyn a Rhyddhau'r Tlotai'n cofnodi enwau, galwedigaethau, crefydd a blynyddoedd geni'r rheini a gafodd eu derbyn i'r tlotai, ac yn nodi pryd y cawsant eu rhyddhau neu pryd y buont farw yn y tloty. Mae'r Cofrestri Credo'n rhoi manylion am y grefydd roedd yr unigolion hyn yn ei harddel, ac weithiau maent yn nodi'r berthynas neu'r ffrind agosaf. Mae'r Llyfrau Troseddau a Chosb yn rhoi enw'r troseddwr, sut y cafodd ei gosbi ac maent yn cofnodi unrhyw gosb gorfforol a gafodd. Os cawsant eu dwyn gerbron yr Ynadon, bydd y Llyfrau'n nodi canlyniadau'r achos. Mae cofnodion hefyd am y cymorth a roddwyd i bobl nad oeddynt yn byw yn y tloty. Yn y Cofnodion Brechu ceir enwau, oed a chyfeiriad y rhai a gafodd eu brechu; ble y cawsant eu brechu, ac a fu'r brechiad yn llwyddiannus ai peidio.

SUT ALLAF I DDEFNYDDIO COFNODION BYRDDAU GWARCHEIDWAID/ DEDDF Y TLODION YN ARCHIFYD Y SIR Y FFLINT?

Mae cofnodion Arolygwyr y Tlodion i'w cael yng Nghofnodion y Plwyf. Cewch hyd i'r mynegeion ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio, o dan y cyfeirnod 'P', ac maent wedi'u rhifo'n ôl enwau'r plwyfi. Dogfennau gwreiddiol yw'r rhain a bydd angen i chi neilltuo desg ymlaen llaw i'w gweld. Archebwch bob cofnod unigol drwy ddefnyddio **ffurflen cais am ddogfen**. Ysgrifennwch gyfeirnod y ddogfen (a'ch enw, rhif eich sedd a'r dyddiad) ar y ffurflen ac ewch â hi i'r ddesg ymholiadau i archebu'r cofnodion.

Mae cofnodion Byrddau'r Gwarcheidwaid yn Archifyd Sir y Fflint wedi'u catalogio o dan gyfeirnod 'G' a chewch hyd i'r catalog ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Mae'r cofnodion wedi'u trefnu'n ôl Undeb o dan y penawdau a ganlyn: Undeb Penarlâg, a ffurfiwyd ym 1853; Undeb Treffynnon, a ffurfiwyd ym 1837; Undeb Llanelwy, a ffurfiwyd ym 1837. Bydd y catalog yn dweud wrthyfych am y plwyfi a'r trefi a oedd wedi'u cynnwys ym mhob un o Undebau Deddf y Tlodion. Dogfennau gwreiddiol yw'r cofnodion hyn hefyd.

Cofiwch fod llawer o'r cofnodion hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Gan hynny, rhaid i chi gael caniatâd i edrych ar unrhyw ddogfen dan 100 oed yng nghasgliad

Byrddau'r Gwarcheidwaid. Holwch wrth y ddesg os hoffech weld cofnodion dan 100 oed yn y casgliad hwn.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

I gael rhagor o wybodaeth am y cofnodion a gaiff eu cadw yn Archifdy Sir y Fflint, ewch i wefan Rhwydwaith Archifau Cymru: www.archivesnetworkwales.info a chwiliwch o dan 'Board of Guardians' neu 'Poor Law'.

Mae gwefan arall, sef : www.workhouses.org.uk yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol a diddorol am fywyd yn y wyrchw. Mae'r safle'n cynnwys gwybodaeth am Dlotai Undebau Treffynnon a Llanelwy.

Mae gan yr Archifau Cenedlaethol hefyd ganllawiau defnyddiol i waith ymchwil i gofnodion Deddf y Tlodion ar eu gwefan: www.nationalarchives.gov.uk